

Arian diweddaraf y Loteri Genedlaethol yn agor mynediad i dreftadaeth

05/08/2021



Tŷr Marcwis Môn

Dyfarwyd mwy na £14miliwn i brosiectau a fydd yn helpu ystod ehangach o bobl i elwa o dreftadaeth.

Credwn y dylai pawb allu elwa o'n cyllid, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, fydd, dosbarth neu incwm."

Ros Kerslake, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Yn gynharach eleni, ailagorwyd ein rhaglen [Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#), ac rydym eisoes wedi gweld llawer o brosiectau gwych yn dod drwodd a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl a threftadaeth. Mae'r cylch ariannu diweddaraf yn cynnwys mwy na £14m ar gyfer prosiectau a fydd yn gwneud treftadaeth yn llawer mwy hygyrch.

Dywedodd Ros Kerslake, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Rydym wrth ein bodd ein bod, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, yn gallu cefnogi'r prosiectau newydd hyn, a fydd yn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion mynediad, yn gallu cymryd rhan lawn

"Mae gan dreftadaeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal, a thrwy gydol y pandemig rydym wedi gweld y gwerth y gall ei roi i bobl, cymunedau a'r economi."

Dysgwch fwy am bump o'r prosiectau isod.

Pum prosiect gwych



Ymddiriedolaeth Colofn Môn

Dyfarwyd £872,800 i Ymddiriedolaeth Colofn Môn i adfer Tŷr a Bwthyn Marcwis Ynys Môn yn Llanfairpwllgwyngyll, Cymru. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu rhodfa hygyrch a llwyfan gwylio canopi coed ysblennydd, fel y gall pobl nad ydynt yn gallu dringo'r 115 o risiau rannu llawer o'r profiad o fod ar frig y golofn.

Amgueddfa Hanes Naturiol, Llundain

Bydd grant o £3.2m i drawsnewid yr amgueddfa yn fannau gwyrdd croesawgar a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys datblygu orielau awyr agored newydd a gwella mynediad i'r gerddi, gyda llwybrau digam cyffredinol ar draws y safle.



Ymddiriedolaeth Parc Nene



Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio eu grant o £1.9m i gysylltu cymunedau Peterborough â natur a'r awyr agored. Mae amrywiaeth o weithgareddau'n cynnwys teithiau tywys i bobl â nam ar eu golwg, teithiau cerdded cydymaith i bobl sy'n profi unigedd a phlannu coed gyda'r gymuned Sikh.

Bydd y rhain yn helpu llawer mwy o bobl i elwa o'r dreftadaeth ym Mharc Nene.

Archifau Swydd Stafford a Stoke-on-Trent

Derbyniodd yr archifau grant o £3.96m i ddatblygu canolfan hanes newydd ac agor yr archifau i gymunedau lleol. Bydd adnoddau a gweithgareddau dysgu yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys pobl ifanc, pobl â dementia cynnar, yn ogystal â chymunedau o ddwyrain Ewrop a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnigrwydd.



Cymdeithas Sŵlegol Frenhinol yr Alban



Dyfarwyd £1.9m i Gymdeithas Sŵlegol Frenhinol yr Alban i greu canolfan ymwelwyr hygyrch ym Mharc Cenedlaethol Cairngorms. Bydd cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yn canolbwyntio ar helpu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl ifanc, i gysylltu â threftadaeth naturiol yr ardal.

Beth arall gafodd ei ariannu?

Dyfarnwyd cyllid hefyd i Gyngor Sir Durham (£1,207,100), Cyngor Dinas Sheffield (£143,900) a Gweinidog Casnewydd (£869,100) ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwelliannau i hygyrchedd a rhaglenni digidol i gysylltu'r sefydliadau ag ystod ehangach o bobl.

Ein canlyniad gorfodol

Dysgwch fwy am y [canlyniadau sydd eu hangen arnom](#) o'r prosiectau rydym yn eu cefnogi, gan gynnwys ein canlyniad gorfodol: **bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth**. Gallwch hefyd ddarllen ein [cyngor cynhwysiant](#) i'ch helpu i gyflawni'r canlyniad hwn.

Mae Ros Kerslake yn esbonio pam mae hyn yn bwysig: "Credwn y dylai pawb allu elwa o'n cyllid, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, ffydd, dosbarth neu incwm. Dyna pam mae'n rhaid i bob prosiect rydym yn ei ariannu sicrhau y gellir cynnwys yr ystod ehangaf o bobl â phosibl, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyn wrth i ni adeiladu'n ôl o'r argyfwng coronafeirws."

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

[Mis Hanes Anabledd: newid agweddau](#)

Getting work experience curating the 'Museum in a Jar' exhibition

Kick the Dust Norfolk Journeys: helpu pobl ifanc i gael gwaith

Blwyddyn fel Cyfarwyddwr Cymru: cyfyngiadau symud, Balchder a chynhwysiant